



UK Government

Cronfa Adfywio Cymunedol y DU

Gwahoddiad i Gyflwyno Ceisiadau Prosiect

Cyflwyniad

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gwahodd ceisiadau gan sefydliadau sy'n dymuno cyflawni gweithgarwch fel rhan o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Darllenwch brospectws *Cronfa Adfywio Cymunedol y DU a Nodyn Technegol Cronfa Gymunedol y DU ar gyfer Ymgeiswyr a Darparwyr Prosiectau* cyn dechrau gweithio ar gais. Maent ar gael [yma](#)

Mae'r Prospectws yn rhoi gwybodaeth fanwl am amcanion y Gronfa, y mathau o brosiectau y mae'n bwriadu eu cefnogi a sut y mae'n gweithredu, gan gynnwys y meini prawf proses a dethol a ddefnyddir i asesu ceisiadau.

Bydd ceisiadau llwyddiannus Cronfa Adfywio Cymunedol y DU ar gyfer 2021/22 yn unig a rhaid i'r gweithgarwch ddod i ben ym mis Mawrth 2022.

Cefndir

I helpu ardaloedd lleol i baratoi ar gyfer cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae Llywodraeth y DU yn cynnig arian yn 2021/22 drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Mae gennym ddiddordeb mewn ceisiadau sy'n adeiladu ar fewnwelediad a gwybodaeth leol, a chynigion prosiect sy'n cyd-fynd â chynlluniau strategol hirdymor ar gyfer twf lleol, yn targedu'r bobl fwyaf anghenus ac yn cefnogi adfywio cymunedol.

Yn ogystal, dylai prosiectau ddangos sut maent yn ategu darpariaeth genedlaethol a lleol arall. Ffocws ar gyfer y Gronfa hon yw cefnogi arloesedd a syniadau newydd yn y meysydd hyn, buddsoddi mewn cynlluniau peilot sy'n defnyddio mewnwelediadau lleol ac a fydd yn helpu lleoedd i baratoi ar gyfer cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn 2022.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi'i ddynodi'n awdurdod arweiniol gan Lywodraeth y DU. Fel awdurdod arweiniol, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gyfrifol am:

- gyflwyno'r gwahoddiad hwn
- derbyn ceisiadau
- dewis y ceisiadau a anfonir at Lywodraeth y DU i'w hystyried
- talu grantiau i brosiectau llwyddiannus a rheoli eu perfformiad

Ceir manylion llawn am rôl awdurdodau arweiniol ym Mhrospectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Pa fath o geisiadau yr ydym yn chwilio amdanynt?

Rhaid i brosiectau ddarparu gweithgarwch sy'n cyd-fynd â Phrospectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU (gweler y ddolen isod) a chyd-fynd ag o leiaf un o'r blaenoriaethau buddsoddi hyn:

- Buddsoddi mewn sgiliau
- Buddsoddi ar gyfer busnesau lleol
- Buddsoddi mewn cymunedau a lle
- Cefnogi pobl i gael gwaith

Nid oes unrhyw ddyraniadau ariannol i'r blaenoriaethau hyn.

Mae Llywodraeth y DU yn rhagweld cefnogi amrywiaeth o brosiectau yn ôl thema a maint, ond anogir ymgeiswyr i sicrhau'r effaith fwyaf posibl a'r gallu i gyflawni drwy brosiectau mwy (£500,000+) lle mae hyn yn bosibl.

Gan fod 90% o'r arian sydd ar gael drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn arian refeniw a dim ond ar gael yn 2021/22, dylai prosiectau fod yn seiliedig ar refeniw yn bennaf, neu'n seiliedig ar refeniw yn unig. Ni chefnogir prosiectau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar adeiladu neu adnewyddu adeiladau'n sylweddol, prynu tir neu brynu darnau mawr o offer.

Blaenoriaethau lleol

Wrth ddewis y ceisiadau a fydd yn cael eu hanfon ymlaen at Lywodraeth y DU i'w hystyried, bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn blaenoriaethu'r ceisiadau sydd â'r potensial mwyaf i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau twf lleol allweddol.

Ar gyfer Dinas Casnewydd dylech ystyried sut y bydd eich prosiectau'n cefnogi'r pedwar amcan lles a osodwyd yn y [Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un 2018-23](#):

1. Mae pobl yn teimlo'n gadarnhaol am fyw, gweithio, a buddsoddi yng Nghasnewydd ac ymweld â hi.
2. Mae gan bobl sgiliau a chyfleoedd i ddod o hyd i waith addas a chyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy.
3. Mae pobl a chymunedau yn gyfeillgar, hyderus ac wedi eu grymuso i wella eu lles.
4. Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn.

Fel yr awdurdod arweiniol mae gan Gyngor Dinas Casnewydd hefyd ei [Gynllun Corfforaethol 2017-22](#) a'i [Nodau Adfer Strategol Covid](#) lle dylai prosiectau hefyd ystyried sut y gall y rhain gefnogi nod y Cyngor ar gyfer 'Gwella Bywydau Pobl'.

Mae'r newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio hefyd yn flaenoriaethau i Gasnewydd a dylai ceisiadau am brosiectau ystyried a dangos sut y byddant yn cefnogi Casnewydd i gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

- Cwmpas Daearyddol - dylai prosiectau fod o fudd i ddinas Casnewydd a Rhanbarth ehangach y De-ddwyrain. Lle mae awdurdodau lleol eraill wedi'u cynnwys byddwn yn cysylltu â'r Awdurdodau hynny i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol ar gyfer yr ardaloedd hynny.

Sut y caiff ceisiadau eu hasesu

Fel yr awdurdod arweiniol bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn asesu'r holl geisiadau a gyflwynir. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn:

- y meini prawf porth a nodir ym Mhrosiectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU – nid yw ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn yn gymwys i gael cymorth a byddant yn cael eu gwrthod
- i ba raddau y maent yn bodloni amcanion Cronfa Adfywio Cymunedol y DU
- i ba raddau y byddai ceisiadau'n cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau cymorth cyflogaeth a thwf lleol

Yn dilyn asesiad bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cyflwyno'r ceisiadau cymwys hynny sy'n bodloni Cronfa Adfywio Cymunedol y DU a blaenoriaethau lleol fwyaf i Lywodraeth y DU i'w hystyried, hyd at uchafswm o £3 miliwn yr un.

Bydd Llywodraeth y DU yn asesu pob cais a gyflwynir gan awdurdodau arweiniol yn erbyn y meini prawf a nodir ym Mhrosbectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi canlyniad y broses asesu o ddiwedd mis Gorffennaf 2021 ymlaen.

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn ymrwmo i gytundeb ariannu gyda'r cynigwyr llwyddiannus.

Cyflwyno Cais

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio Ffurflen Gais Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, sydd ar gael [yma](#). Ni dderbynnir ceisiadau a gyflwynir mewn unrhyw fformat arall.

Rhaid cyflwyno ceisiadau i Gyngor Dinas Casnewydd gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn: ukcrf@newport.gov.uk

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn dydd Sul 21 Mai 2021. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl 21 Mai 2021 yn cael eu hystyried gan y Panel Asesu.

Mae Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn broses gystadleuol ac ni fydd Cyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth y DU yn cynnal trafodaethau â'r cynigwyr.